# Cyngor Tref Aberaeron
# Adroddiad Blynyddol Mai 2021-Ebrill 2022

## Adroddiad Maer y Dref i Gyfarfod Blynyddol 2022

Bu'n fraint ac yn bleser cynrychioli Cyngor y Dref a thrigolion Aberaeron dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn anffodus, unwaith eto treuliwyd mwyafrif y flwyddyn dan ryw fath o gyfyngiadau Cofid, ond er hynny, llwyddwyd i gynnal rhai digwyddiadau.

Ar Fai 15$^{fed}$, roeddwn yn falch i dderbyn gwahoddiad i gofnodi canmlwyddiant y Lleng Brydeinig Frenhinol sydd wedi gwneud cymaint i ddynion a menywod y gwasanaethau. Cefais fy nghyfweld gan 'Straeon Aberaeron', tudalen Facebook i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn Aberaeron.

Ym mis Mehefin, mynychais seremoni cyflwyno yng Ngorsaf Dân Aberaeron ble cafodd Marc Davies fedal am ei wasanaeth ugain mlynedd fel ymladdwr tân argadwedig.

Ym mis Gorffennaf, helpais lansio prosiect "Love Life Projects Garden Angels" a mynychu agoriad arddangosfa gelf "Art at the Feathers" yn cynnwys gweithiau Wynne Melville Jones (creawdwr Mistar Urdd), Phil Huckin a Charlotte Baxter.

Ym mis Awst, cefais wahoddiad i gystadleuaeth criced chwech-bob-ochr ble roedd y Dirprwy Faer yn rhan o'r tîm.

Ym mis Medi daeth Taith Prydain i'r dref. Y noson gynt, gwnes ymddangosiad byr ar raglen S4C 'Heno' i hyrwyddo Aberaeron cyn ymuno â thrigolion Aberaeron i wylio'r beicwyr yn dechrau eu siwrnai hir i'r gogledd i Landudno. Rhaid dweud fod yna ddelweddau ysblennydd o Aberaeron a'r daith tua'r gogledd.

Ym mis Tachwedd, ynghyd â'n Cynghorydd Sir Elizabeth Evans (a ail-etholwyd yn ddiweddar), dadorchuddiwyd plac ar glwyd y Cae Sgwâr i gofnodi can mlynedd y Lleng Brydeinig Frenhinol, a ddilynwyd gan y Gwasanaeth Coffa flynyddol yn y Neuadd Goffa, ble gosodwyd plethdorch Cyngor y Dref. Cefnogais noson Tân Gwyllt Sgowtiaid Aberaeron a Chei Newydd hefyd. Taniwyd goleuadau Nadolig y dref yn ystod y mis yma gyda nifer fach yn bresennol ar noson waethaf y gaeaf! Ym mis Rhagfyr, daeth Tractorau goleuedig er budd RABI i'r dref, a oedd yn syniad da, a gydag ambell newid, gallai hyn fod yn ddigwyddiad arbennig. Aethpwyd ag anrhegion Nadolig i drigolion Min-y-Môr ar ran y Cyngor.

Ym mis Ionawr, ymunais â Thîm Plismona'r Gymdogaeth Heddlu Dyfed Powys ar batrôl ar ddiwrnod hyfrytaf y mis. Roedd yn braf cwrdd â'r trigolion a siarad am eu pryderon plismona.

Roedd Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi yr Ysgol Gynradd yn anhygoel! Roedd y tywydd yn berffaith ac roedd digon o gefnogaeth gan y trigolion. Rhaid i mi hefyd dalu teyrnged i grŵp Siarter Iaith yr ysgol a wnaeth Gennin Pedr i addurno ffenestri busnesau'r dref. Cefais gyfweliad gyda dosbarthiadau Blynyddoedd 1 a 2 ar fy rôl fel Maer, a wnaeth yr Arglwydd Sugar edrych fel cath fach! Tua diwedd mis Mawrth,

roeddwn yn siomedig i fethu bod yn bresennol yn y Noson Codi Arian i Iwcrain ar ôl dioddef Cofid, yn enwedig ar ôl gweithio mor galed i drefnu'r cyfan mewn cyfnod byr o amser.  Fodd bynnag, gyda chymorth Pwyllgor y Neuadd Goffa, roedd y noson yn llwyddiant llwyr, a chodwyd dros £4,200 tuag at Apêl Ddyngarol DEC.

Bu'r digwyddiadau swyddogol olaf ar ddiwedd Ebrill pan oeddwn yn falch iawn i gyflwyno medalau yn y Gŵyl Bêl-droed Iau, ac ymweliad â'r Clwb Rygbi i weld y tîm cartref yn maeddu Llanybydder.

O ran y Cyngor, rydym wedi parhau gyda gwaith y Cynllun Busnes a'r Cynllun Gweithredu, ond mae sefyllfa Cofid yn golygu fod pethau wedi cymryd yn hwy nag a ddylent.  Rydyn ni wedi symud ymlaen gyda chofrestriad daliadau tir Cyngor y Dref, ac arwydd newydd arall ar fynedfa ddwyreiniol Allt-y-Graig.

Mae Darryl a minnau wedi cofrestru fel Arolygwyr Meysydd Chwarae Cofrestredig (mae bathodynnau gyda ni i brofi hynny!), ac wedi parhau i arolygu'n fisol y meysydd chwarae.

Mae'r grwp gwirfoddolwyr wedi gwneud gwaith anhygoel yn Allt-y-Graig, a digwyddodd sawl sesiwn codi sbwriel yn ystod y flwyddyn.  Mae ein harddangosfeydd blodau yn edrych yn ddeniadol diolch i Diana Mace a'i gwirfoddolwyr.

Ond nid yw hyn yn fêl i gyd.  Rwy'n dal i dderbyn cwynion ynghylch trefn palmentydd y dref yn ddyddiol, ac rwy'n gobeithio bydd synnwyr cyffredin yn dod i'r blaen, fel y gall y dref adennill ei theitl fel gem arfordir Ceredigion, yn hytrach na draenen boenus dros y ddwy flynedd ddiwethaf.  Er nad yw sbwriel yn rhan o waith Cyngor y Dref, mae llawer o gwynion am gyflwr y dref a'r diffyg casglu sbwriel, ac rydyn ni gyd wedi gweld y tipio anghyfreithlon ar hyd y dref.

Fy swydd gyntaf fel Cadeirydd mis Mai diwethaf oedd adrodd ar ymddiswyddiad Mair Harrison fel Cynghorydd, a dyma'r cyfarfod cyntaf heb Owenna James a Neris Lloyd, ynghyd â Katrina James a Roger March a wasanaethodd yn dda yn eu cyfnodau fel Cynghorwyr.  Diolchwn iddynt am eu hamser a'u hymrwymiad i'r Cyngor.  Roeddwn yn siomedig na chawsom fwy o enwebiadau y tro yma ond yn anffodus credaf fod pobl yn fwy gofalus gyda'u hamser y dyddiau yma.

Yn olaf, diolchaf i chi gyd, ond yn enwedig Darryl fy nirprwy, fy nheulu a ffrindiau am y gefnogaeth a gefais yn ystod fy amser fel Maer y dref.  Fedra i ddim anghofio diolch i'r Clerc am sicrhau fy mod yn glynu at yr holl weithdrefnau!

Y Cynghorydd Rhodri Jones
Maer y Dref 2021-22

## Trefniadaeth y Cyngor

Cyngor Tref Aberaeron yw haen fwyaf lleol llywodraeth leol ar gyfer cymuned Aberaeron ac mae'n awdurdod lleol a sefydlwyd trwy Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Cyngor yn cynnwys deuddeg Aelod etholedig.

Yr Aelodau yn ystod y flwyddyn drefol 2021-22 oedd y Cynghorwyr Phill Davies, Rhys Davies, Darryl Evans, Elizabeth Evans, Katrina James, Owenna James, Rhodri Jones, Neris Lloyd, Diana Mace, Roger March a Huw Thomas. Roedd un lle gwag yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Mair Harrison ym mis Mai 2021.

Mae'r Cyngor yn cyflogi Clerc rhan amser, Mr Denfer Morgan, sydd yn gyfrifol am weinyddiaeth y Cyngor, gan gynnwys y cyllid.

Mae'r Cyngor yn cwrdd am 7.00yh ar ail nos Fawrth bob mis yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd Goffa Aberaeron, ar wahân i fis Awst. Yn ystod y cyfnod pan oedd cyfyngiadau Cofid-19 Llywodraeth Cymru yn bodoli, bu'r Cyngor yn cyfarfod drwy fynychu o bell ar Microsoft Teams. Mae'r cyfarfodydd yn cwrdd yn gyhoeddus. Yn unol â deddfwriaeth diweddara Llywodraeth Cymru, gellir mynychu cyfarfodydd yn bersonol neu drwy fynychu o bell gan ddefnyddio Teams.

Gellir cysylltu gyda'r Cyngor drwy gysylltu â'r Clerc trwy anfon e-bost at ctaberaeron@btinternet.com <mailto:ctaberaeron@btinternet.com> neu ffonio 07749 320915.

Gwefan y Cyngor yw http://www.aberaeron-tc.gov.wales/
Mae darpariaeth gwybodaeth ar y wefan yn cynnwys:http://www.aberaerontowncouncil/

- Manylion cyswllt
- Manylion y Cynghorwyr
- Calendr cyfarfodydd ac agenda a chofnodion
- Gwybodaeth ariannol
- Polisïau

## Cynllun Busnes 2021-24

Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Cynllun Busnes ar gyfer y cyfnod 2021-24 sy'n cynnwys Cynllun Gweithredu ar gyfer 2021-22 yn amlinellu'r gwaith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd cynnydd y gwaith yn cael ei fonitro yn y cyfarfodydd misol.

Nodau strategol cyfnod y Cynllun Busnes yw:

1. Gwneud y dref yn lle deniadol i fyw;

2. Hyrwyddo twf busnes a chyfleoedd cyflogaeth gwell;

3. Cadw a gwella gwasanaethau er lles y dref a'r gymuned ehangach;

4. Cynnal a chadw a hyrwyddo ei threftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg;

**5.** Parhau i ddatblygu Aberaeron fel prif gyrchfan twristiaeth.

Amcanion Allweddol Cyngor Tref Aberaeron ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes yma.

Mae'n cynnwys unarddeg amcan allweddol i helpu cyflawni'r nodau strategol yma.

Prif brosiectau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yw:

- Grant Gweddnewid Tref Cofid-19 i roi cymorth i fusnesau lleol yn ystod y cyfnodau clo
- Gwefan newydd
- Gwelliannau ym meysydd chwarae Cae Sgwâr a Pharc-y-Fro, gan gynnwys trwsio cyfarpar, arwynebedd diogel a ffensio
- Hyfforddi arolygwyr meysydd chwarae
- Gwelliannau yng nghoetir Allt-y-Graig, gan gynnwys arwyddion newydd a gwaredu'r rhododendron
- Trwsio meinciau o fewn y dref
- Adolygu goleuadau Nadolig
- Arolwg cyflwr y coed.

Mae'r Cynllun Busnes llawn ar gael ar wefan y Cyngor.

## Tir Hamdden a Mwynder

Mae'r Cyngor yn berchen ar dair ardal o dir yn y dref sy'n cael ei ddarparu ar gyfer pwrpasau hamdden a mwynder, sef:

- Cae Sgwâr
- Parc-y-Fro
- Coetir Allt-y-Graig
- Coetir Banc Bach.

Dynodwyd y Cae Sgwâr yn Gae Canmlwyddiant Ceredigion ac fe'i gosodir i sefydliadau i gynnal digwyddiadau megis yr Ŵyl Arddio, Gŵyl Bêl-droed Iau, Gwyliau'r Cobiau a Cheffylau Gwedd a'r Carnifal Blynyddol. Defnyddir y Cae hefyd ar gyfer gemau gan Glwb Pêl-droed Aberaeron.

## Gwasanaethau

Mae'r Cyngor yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Meysydd chwarae plant yn y Cae Sgwâr a Pharc-y-Fro
- Llwybr coetir yn Allt-y-Graig
- Arddangosfeydd blodau yn y dref
- Goleuadau yn yr Harbwr
- Ardal mwynder ym Manc Bach.

Mae’r Cyngor yn cyfrannu at gost darparu’r gwasanaethau canlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:

- Agoriad toiledau Traeth y De yn yr haf
- Canolfan Wybodaeth Twristiaid

## Cyllid

Mae’r Cyngor yn gosod Cyllid Blynyddol ym mis Ionawr sy’n amlinellu gwariant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae’r gwariant yn adlewyrchu’r cynigion sydd yn rhan o’r Cynllun Busnes a’r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Ariennir y gwariant yma drwy praesep a osodir ar yr un pryd. Mae’r praesept yn ei dro yn rhan o Dreth y Cyngor a delir gan bob annedd o fewn y dref. Defnyddir ffynonellau incwm eraill ynghyd ag arian wrth gefn.

Dyma gyllid y Cyngor am 2021-22, a osodwyd yn y cyfarfod ar Ionawr 19eg 2021:

**Gwariant**

£68,725

**Incwm**

Archebiant: £40,808
Arall: £4,326
Arian wrth gefn: £23,591

**Cyfrifon Blynyddol**

Y Cyfrifon Blynyddol diweddaraf i’w harchwilio gan Audit Wales yw’r rhai ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol - 2020-21. Derbyniodd y Cyngor ‘adroddiad diamod’ heb faterion i’w nodi.

Gellir gweld manylion pellach ar wefan y Cyngor.

## Materion Cymunedol

**Cynrychioli’r Gymuned**

Ymgynghorir y Cyngor gan Gyngor Sir Ceredigion ar ambell fater. Cyngor Sir Ceredigion yw’r awdurdod addysg leol, awdurdod priffyrdd lleol, awdurdod cynllunio

lleol a hefyd yn gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol y Sir.

Mae Cyngor y Dref wedi gwneud cynrychiolaethau ar y canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Ceisiadau cynllunio
- Parthau Diogel / Gorchmynion Trafnidiaeth Arbrofol
- Datblygiad yr Harbwr / cynllun diogelu'r arfordir
- Creu llwybrau troed a gwyriadau.

**Gweithgareddau Gwirfoddol**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp o wirfoddolwyr i gyflawni amryw o weithgareddau yn cynnwys torri a chlirio tyfiant yng nghoetir Allt-y-Graig a sesiynau casglu sbwriel rheolaidd.

## Cynigion Datblygu

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Cyngor Sir i ddatblygu cynigion a chaffael ar gyllid ar gyfer y canlynol:

- Cynllun Lle ar gyfer y dref
- Cynllun adfywio ar gyfer busnesau gan gynnwys cynigion ar gyfer brandio'r dref
- Gwasanaeth WiFi i'r dref.

## Blwyddyn Bwrdeistrefol 2022-23

Gosodwyd cyllideb ar gyfer 2022-23 yng nghyfarfod mis Ionawr ac mae'n parhau i gynyddu'r cynigion sydd yn gynwysedig yn y Cynllun Busnes drwy Cynllun Gweithredu 2022-23.

Denfer Morgan
Clerc y Cyngor
Mai 2022